

**Ymfudo, Llythyru a Chyhoeddi:  
Gohebiaeth Dafydd Wiliams o Fecsico i Gymru 1825-26**

**Bill Jones, Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd, Prifysgol Caerdydd.**

Ar 4 Mawrth 1825, hwyliodd Cymro 32 oed o'r enw Dafydd Wiliams – sylwer gydag un 'l' – o borthladd Abertawe, un o ganolfannau diwydiannol pwysicaf y byd ar y pryd, ar ei ffordd i Guanajuato, Mecsico.<sup>1</sup> Ni wyddom lawer amdano. Roedd yn enedigol o Landŵr, yn aelod o deulu cymharol gefnog ac addysgedig, ac yn ddyn adnabyddus iawn ac uchel ei barch yn ardal Abertawe.<sup>2</sup> Roedd yn flaenllaw yn achosion yr Annibynwyr ym Mynydd-Bach a Glandŵr,<sup>3</sup> ac yn fardd; mae rhai cerddi a luniodd yn ystod ei amser yn Guanajuato wedi goroesi.<sup>4</sup> Roedd hefyd yn weithiwr tra medrus ac ar adeg ei ymfudo, roedd yn arolygydd toddle (ffowndri) gwaith haearn Nant-y-Felin, sef yr enwog Millbrook Iron Company yng Nglandŵr. Ar ei ffordd i Fecsico, ymwelodd â Montserrat a Jamaica cyn glanio yn Vera Cruz, Mecsico ar 13 Mai 1825. Yna teithiodd trwy Xalapa a Dinas Mecsico, ac ar y ffordd rhwng Juan del Rio a Queretaro ymddengys y cafodd ef a'i gyd-deithwyr gwmni un o'r Ffrancwyr a oedd wedi glanio yn Abergwaun yn 1797 mewn ymgais aflwyddiannus i oresgyn Cymru. Cyrhaeddodd Wiliams pen ei daith ar 11 Mehefin 1825.<sup>5</sup> Roedd Guanajuato hefyd yn lle tra nodedig; ers canol yr unfed ganrif ar bymtheg roedd hi wedi bod yn un o ganolfannau mwyngloddio arian pwysicaf a phrydferthaf Sbaen Newydd.<sup>6</sup>

Roedd Wiliams wedi ymrwymo ei hun fel ffowndwr [founder] haearn i'r Anglo-Mexican Mining Company, a oedd yn berchen ar fwynfeydd arian yn ardal Guanajuato, ac arhosodd yno am bedair blynedd.<sup>7</sup> Gadawodd Wiliams ei wraig, Gwen, a'u tri mab yn ôl yn Ne Cymru, fel yr oedd yn eithaf cyffredin ymhlith gweithwyr diwydiannol gwrywaidd symudol yn y cyfnod hwnnw. Yn 1829 penderfynodd dychwelyd i Gymru trwy ranau o'r

---

<sup>1</sup> *Cambrian*, 12 Mawrth 1825; *Llythyrau Cymro yn Mexico (Dafydd Wiliams) at ei gyfeillion yn Glandwr wrth Abertawy*, (ail arg., Abertawe: J.A. Williams, arg., 1826), Rhagymadrodd [t.2].

<sup>2</sup> *Llais Llafur*, 31 Mawrth 1900, t.5. Am wybodaeth ar Dafydd Wiliams (1793?-1845), gw. *ibid.*; *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd at 1940* (Llundain: Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1953), t.970; *Cambrian*, 7 June 1845; *South Wales Daily Post*, 11 Gorffennaf 1899; Glenys Bridges, 'Travelling Hopefully: A Welshman Visits Mexico', *Minerva: Transactions of the Royal Institution of South Wales*, 4 (1996), tt.17-21; Derek Williams, 'A Welshman in Mexico', *Glamorgan Family History Society Journal*, 92 (Rhagfyr 2008), tt.9-13.

<sup>3</sup> Gw. y Parch Samuel Williams, *Hanes Eglwys Seilo, Glandwr, 1828-1928* (Llanelli: James Davies, arg, 1928).

<sup>4</sup> 'Hiraeth Cymro Mewn Gwlad Estronol', *Llais Llafur*, 31 Mawrth 1900, ac a ymddangosodd yn gyntaf yn *Yr Oes*, 1825. Gw. Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth [LLGC]: D. R. Phillips MS, 419, Cymro Mecsico.

<sup>5</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, tt.5-64.

<sup>6</sup> *Selections from the Works of Baron von Humboldt relating to the climate, inhabitants, productions of the mines of Mexico with notes by John Taylor* (Llundain, 1824), *passim*.

<sup>7</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Rhagymadrodd [t.2]; *Dychweliad D. Wiliams Y Cymro o Mexico trwy Unol Daleithiau America, yn 1829* (Abertawe: J. A. Williams, arg., 1830), t.97; *Selections from the Works of Baron von Humboldt*, t.xi.

Unol Daleithiau oherwydd yr oedd am weld, yn ei eiriau ef, ‘ansawdd eu gweithfeydd a dull y wlad’.<sup>8</sup> Bu’n teithio am 5 mis cyn cyrraedd adref. Ymadawodd â Guanajuato ar 6 Mawrth 1829. Hwylodd o Vera Cruz i New Orleans, lle cafodd y profiad ofnadwy o fod yn dyst i arwerthiant caethweision. Oddiyno aeth mewn agerfad i fyny’r Mississippi a’r Ohio i Pittsburgh, gan aros yno tua 3 wythnos. O Pittsburgh teithiodd i Philadelphia gan aros yng nghanol ei daith yn agos i Ebensburgh a safle Beula, Pennsylvania, lle sefydlodd Morgan John Rhys ei Wladfa deg mlynedd ar hugain yn gynharach. O Philadelphia aeth i Efrog Newydd, lle fyrddiodd long ar 8 Gorffennaf gan gyrraedd Lerpwl ar 1 Awst 1829, ar ôl fordaith 23 diwrnod. Ond byr fu ei ail gyfnod yn ei hen gartref. Ymhen pedair blynedd, yn 1833, ymfudodd eilwaith, y tro hwn i UDA ac yng nghwmni ei wraig a’i blant. Ymsefydlant yn gyntaf yn Nhalraith Efrog Newydd, ond symudant eilwaith pan yn 1840 cafodd swydd yng ngwaith haearn arloesol y Crane yn Catasaqua, Pennsylvania, a ddechreuwyd gan yr enwog David Thomas, ‘Tad Diwydiant Glo Carreg America’. Bu Wiliams farw yno ar 1 Mai 1845 yn 52 oed.<sup>9</sup>

Mae Dafydd Wiliams yn destun diddorol am sawl rheswm. Mae ei fywyd yn ddarluniad unigol o ddau gyd-destun hanesyddol pwysig sy’n cydblethu’n dynn yma. Enghraifft yw o’r dylanwad allweddol a gafodd sgiliau diwydiannol y Cymry ar ymfudo o’r famwlad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, trwy sbarduno llawer o ddynion i ymsefydlu mewn gwledydd eraill dros y byd. Mae stori Wiliams hefyd yn rhan annatod o’r newidiadau pwysig a phellgyrhaeddol a gafwyd yn y 1820au megis twf y fasnach ryngwladol a datblygiad economïau cenedloedd annibynnol newydd De a Chanolbarth America wedi iddynt dorri i ffwrdd o Ymerodraeth Sbaen. Yn cadw cwmni i Wiliams ar fwrdd y llong *Rosalind* oedd bron deugain o beiriannwyr a mwynwyr, rhai ohonynt, fel ef, ar eu ffordd i Guanajuato, a’r lleill yn teithio i gyrchfannau eraill yng Nghanolbarth America, gydag ef. Roedd y llong hefyd yn cludo peiriannau mwyngloddio ac injans ager a gynhyrchwyd yng Ngwaith Haearn Abaty Nedd.<sup>10</sup> Roedd y gweithwyr diwydiannol Cymreig hyn a’u thechnoleg yn rhan o gymunedau bach o Brydeinwyr a ymddangosodd ar draws America Ladin yn y 1820au wrth i gwmnïau masnachol ac ariannol Prydain geisio manteisio ar y cyfleoedd y credant oedd yn awr ar agor yn dilyn cwmp yr Ymerodraeth Sbaenaidd. Yn hytrach na defnyddio’r gweithwyr crefftus brodorol a oedd eisoes yn trigo yn y gwledydd

<sup>8</sup> *Dychweliad D. Wiliams Y Cymro o Mexico*, t.110. Gweler hefyd Rhagymadrodd a *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Wiliams at R. Wiliams, Guanajuato, 30 Mehefin 1826, tt.91-2.

<sup>9</sup> *Cambrian*, 7 June 1845; *Cyfaill o’r Hen Wlad*, 8:6 (Mehefin 1845), t.92; *Llais Llafur*, 31 Mawrth 1900; *South Wales Daily Post*, 11 Gorffennaf 1899.

<sup>10</sup> *Cambrian*, 12 Mawrth 1825.

newydd yn America Ladin, targedai'r cwmniau hyn mwynwyr, mwyndoddwyr a gweithwyr haearn o Gymru, Cernyw, yr Alban, Lloegr a'r Almaen, hynny yw dynion fel Dafydd Williams, yn ei achos ef oherwydd ei arbenigedd yn y diwydiant haearn.<sup>11</sup>

Mae Dafydd Wiliams o ddiddordeb hefyd oherwydd yr oedd yn llythyru yn ôl i Gymru, ac mae rhai o'i lythyrau wedi goroesi. Rydynt yn rhan o'r miloedd ar filoedd o lythyrau a ehedodd rhwng y Cymry tramor a Chymry'r famwlad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma gorff o lenyddiaeth amhrisiadwy. Go brin fyddai rhai o'r llythyrwyr hyn wedi breuddwydio rhoi pen ar bapur pe na fuasent hwythau wedi ymfudo neu fod aelodau o'u teuluoedd, cyfeillion, cymdogion ac ati wedi gwneud hynny. Efallai mai hynny'n wir am Dafydd Wiliams. Roedd i lythyrau ymfudwyr nifer o swyddogaethau pwysig. Trosglwyddent hanes a newyddion a rhoddent wybodaeth am wledydd tramor i ddarpar ymfudwyr. Roeddent yn llawn arwyddocâd seicolegol a chymdeithasol, yn ddull o gadw rhwymau emosiynol ynghyd yn wyneb y rhwyg rhwng teuluoedd a chyfeillion a grëwyd gan y weithred o ymfudo. Llythyrau yw'r ffynhonnell fwyaf a phwysicaf sydd gennym am ddadlennu teithi meddwl, gweithgarwch ac agweddau'r ymfudwyr Cymreig cyffredin. Ynddynt gellir clywed lleisiau'r ymfudwyr eu hun.<sup>12</sup>

Ond yn wahanol i'r rhan fwyaf o ohebiaeth yr ymfudwyr o Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cafodd lythyrau Dafydd Wiliams eu cyhoeddi hefyd. Ceir cyfres ohonynt yn 1826 mewn rhannau ac yna yn gyflawn mewn cyfrol yn dwyn y teitl *Llythyrau Cymro yn Mexico*, a argraffwyd gan John A. Williams, Abertawe. Ymddengys yr enillodd y gyfrol hon gryn boblogrwydd. Ymddangosodd dri argraffiad o fewn blwyddyn, ac fe werthodd yn helaeth iawn. Mynnodd yr argraffydd bod y gyfrol wedi derbyn '*very considerable encouragement, several thousand copies having been sold*'.<sup>13</sup> Pan oedd Dafydd Wiliams yn Pittsburgh yng nghanol 1829, cwrddodd sawl Cymro a oedd wedi darllen y llyfr.<sup>14</sup> Un arwydd o'i boblogrwydd yw bod ysgrifau coffa i Wiliams yng Nghymru ac UDA yn cyfeirio at *Llythyrau Cymro yn Mexico*.<sup>15</sup> Cymaint oedd y diddordeb yn y gwaith, cyhoeddwyd trosiad o rhai o'r llythyrau yn Hydref 1826 sef *A Series of Letters from Mexico*. Argraffwyd

---

<sup>11</sup> Sharron P. Schwartz, 'Cornish Migration to Latin America: A Global and Transnational Perspective', traethawd Ph.D. anghyhoeddedig, Prifysgol Exeter, 2003; A. C. Todd, *The Search for Silver: Cornish Miners in Mexico 1824-1947* (Padstow: Lodenek Press, 1977);

<sup>12</sup> Gw. y drafodaeth yn Bill Jones, 'Writing Back: Welsh Emigrants and their Correspondence in the nineteenth century', *North American Journal of Welsh Studies*, 5.1 (Gaeaf, 2005), tt.23-46.

<sup>13</sup> *A Series of Letters from Mexico. Addressed to his friends at Landore near Swansea by D. Williams ... Translated from the Welsh* (Abertawe: J. A. Williams, 1826), p.2.

<sup>14</sup> *Dychweliad D. Wiliams Y Cymro o Mexico*, t.128.

<sup>15</sup> *Cambrian*, 7 June 1845; *Cyfaill o'r Hen Wlad*, 8:6 (Mehefin 1845), 92; *Llais Llafur*, 31 Mawrth 1900; *South Wales Daily Post*, 11 Gorffennaf 1899.

hwn hefyd gan John A Williams, a ddatganodd yn y rhagarweiniad: ‘*The continual enquiries after [the following letters] in English, has induced the publisher to translate them.*’<sup>16</sup> Pedair blynedd yn ddiweddarach, oherwydd llwyddiant ei gyfrol gyntaf, penderfynodd Williams ysgrifennu ail gyfrol yn disgrifio ei daith yn ôl i Gymru drwy UDA, sef *Dychweliad D Wiliams Y Cymro o Mexico trwy Unol Daleithiau America, yn 1829* (1830).<sup>17</sup> Nid cyfres o lythyrau mo hwn ond llyfr taith confensiynol sydd yn fras ar ffurf dyddiadur ond ceir ynddo hefyd rhai elfennau a fyddai’n dod i nodweddu arweinlyfrau ymfudwyr y cyfnod. Er enghraifft ar ddiwedd y gyfrol mae’n cynnwys cyfarwyddiadau i ymfudwyr ac yn disgrifio dadl fawr a hir a fu rhwng teithwyr ar fwrdd y llong o Efrog Newydd i Lerpwl ynglyn ag a ddylai pobl Prydain ymfudo i UDA neu beidio. Mae’r ddwy gyfrol, yn eu gwahanol ffurf, yn croesi ffiniau rhwng llenyddiaeth bersonol, llenyddiaeth daith a llenyddiaeth ymfudo. Ond nid oes gennyf amser i drafod y pwynt hwn ymhellach heddiw ac yn bennaf byddaf yn cyfyngu fy sylwadau at *Llythyrau Cymro yn Mexico*.

Mae *Llythyrau Cymro yn Mexico* yn destun cyfoethog, gwerthfawr a phrin am sawl rheswm. Anaml iawn yw ffynonellau hanesyddol am hanes a phrofiadau’r Cymry hynny a fentrodd o ardaloedd diwydiannol y famwlad i America Ladin -- heblaw i yma ym Mhatagonia wrth gwrs -- yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Prinnach fyth yw tystiolaeth o ganol y 1820au, pan oedd gweithwyr Cymry yn dechrau ymddangos ar y ffin mwynfaol yn Chile, Mecsico ac ati. Ond nid oherwydd eu bodolaeth yn unig y mae ysgrifau Williams yn ddiddorol. Fel mae’n digwydd roedd Dafydd Williams yn llenor galluog ac yn sylwedydd diddorol. Cyflwynai ei argraffiadau mewn arddull clir a darllenadwy. Nododd yn gynnar ar ei daith i Fecsico, ‘rhoddwyd i ni lyfrau ... i ddysgu yr Ysbaeneg’ ac mae’n debyg iddo ddysgu peth o’r iaith.<sup>18</sup> Mae gennym ddisgrifiad o Williams wrth ei waith, gan un o’i gyd-deithwyr i Guanajuato: ‘Gwelais ef yn aml (pan yn teithio mewn lludded) yn taflu ffrwyn ei geffyl i mi neu ryw un arall, ac yn ysgrifenu nodiadau o’r pethau hynotaf, a phan byddai ereill yn cysgu yn dawel, byddai ef yn ysgrifenu yn ddiwyd.’<sup>19</sup> Yn llythyrau Williams ac yn hanes ei daith trwy UDA ceir disgrifiadau manwl o’r ddwy wlad honno a thai, gwisgoedd, dull o fyw, arferion a chrefydd eu pobl. Ceir tipyn ar yr hyn a fynnodd Williams oedd ffeidd-dra Catholigiaeth a phaganiaeth. Ceir yn ogystal darnau ar hanes a sefyllfa gyfoes yr ardaloedd

---

<sup>16</sup> *A Series of Letters from Mexico. Addressed to his friends at Landore near Swansea by D. Williams ... Translated from the Welsh* (Swansea: J. A. Williams, 1826), Advertisement.

<sup>17</sup> Gw. nodyn 7.

<sup>18</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Williams at Maybery, Montserrat, 24 Ebrill 1825, t.3.

<sup>19</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, ‘At Y Cymry. Tystiolaeth W Morris, Penbre, un o gyd-deithwyr D. Williams, ysgrifenydd y Llythyrau’. Clawr yr ail argraffiad.

a'r lleoedd ym Mexico y bu Williams ynddynt, gan gynnwys nifer o sylwadau ar effaith a chanlyniadau'r rhyfel dros annibyniaeth yn erbyn yr Ymerodraeth Sbaenaidd a ddaeth i ben yn 1821, a'r rhyfel cartref a oedd newydd dorri allan. Roedd hefyd yn awyddus i gyfeirio at y brodorion ac i nodi presenoldeb cenhedloedd eraill yn ogystal a'r cyd-Gymry y daeth ar eu traws yn ystod ei arhosiad yn Guanajuato a'i deithiau.

Rhywbryd eto gobethiaf fanylu ar y darlun o Fecsico a'i phobl y mae Williams yn ei greu, gan iddo ddadlennu gymaint nid yn unig am ymateb Williams i wlad a oedd mor wahanol a dieithr iddo. Mae cyfrol Williams yn dweud llawer wrthym hefyd am deithi meddwl y Cymry yn yr un cyfnod, eu rhagfarnau, eu hymagweddau a'u daliadau. Ond yn yr ysgrif hon, canolbwyntiaf ar yr hyn a ddadlennir yn llythyrau Williams o Fecsico am, yn gyntaf, rhai agweddau ar brofiadau un ymfudwr unigol, ac yn ail, y broses o anfon llythyrau a'r ffenomen o gyhoeddi llythyrau personol. Un haen o'm diddordebau ymchwil yw'r cydberthynas rhwng ymfudo, llythyrau'r ymfudwyr a datblygiad diwylliant printiedig yng Nghymru. Mae nifer fawr o lythyrau'r ymfudwyr Cymreig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar ffurf llawysgrif wedi goroesi ac ar gadw mewn archifau a llyfrgelloedd ac yn nwylo preifat. Ond mae'n syndod faint o lythyrau personol gan ymfudwyr Cymreig gafodd eu cyhoeddi mewn papurau newydd a chylchgronau yng Nghymru. Cyhoeddwyd llythyrau personol yn ogystal mewn llyfrau taith a chanllawiau a llawlyfrau i ymfudwyr, ac yn annibynol mewn casgliadau.<sup>20</sup> Enghraifft gynnar ac enwog yw *Newyddion Da o Wlad Bell* (1830) gan John Davies, 'Brychan', y bardd a chyhoeddwr o Dredegar, sydd yn cynnwys llythyrau a dderbyniodd gan Gymry yn Pittsburgh, UDA.<sup>21</sup> Ceir o leiaf un gyfrol o lythyrau o'r Wladfa.<sup>22</sup>

Anfonwyd llythyrau at bapurau newydd oherwydd y credwyd yr oedd eu cynnwys o ddiddordeb i ddarllenwyr yng Nghymru, cynnwys megis newyddion am gyfeillion a chydweithwyr, am brisiau tir a bwyd, am gyflogau a chyfleon gwaith ac am fywyd cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol y Cymry yn y gwledydd newydd.<sup>23</sup> Ond yn aml roedd elfen o bropaganda y tu ôl i gyhoeddi llythyrau ymfudwyr. Bu ymdrechion penodol trwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddefnyddio llythyrau personol ymfudwyr i ddarbwylllo pobl

---

<sup>20</sup> Gw. y drafodaeth yn Bill Jones, ' "Going into Print": Published Immigrant Letters, Webs of Personal Relations, and the Emergence of the Welsh Public Sphere', yn *Letters Across Borders: The Epistolary Practices of International Migrants*, gol. Bruce S. Elliott, David A. Gerber a Suzanne M. Sinke (Basingstoke: Palgrave, 2006), tt.175–99.

<sup>21</sup> John Davies (Brychan), *Newyddion Da o Wlad Bell; Sef Crynodeb o Lythyrau Oddiwrth T. Williams, gynt o Waith Haiarn Rymni a J. Williams, o Nantyglo, o Pottsville yn Mhensylvania, Gogledd America, at eu Cyfeillion yng Nghymru* (Merthyr Tydfil: yr awdur, 1830).

<sup>22</sup> *Llythyrau a ddaethant o'r sefydlwyr yn y Wladva Gymreig, Gweriniaeth Arianin, Deheudir America* (Cwmni Ymfudol a Masnachol y Wladva Gymreig Cyfyngedig, 1866).

<sup>23</sup> Seilir y paragraff hwn ar Jones, ' "Going into Print" '.

yng Nghymru i ymfudo neu beidio, ac os oeddent wedi penderfynu i ymfudo, i'w dylanwadu ynglŷn a pha le oedd orau iddynt ymgartrefu ynddo. Roedd yr ymdrechion hyn yn rhan annatod o'r trin a thrafod a'r dadlau ffyrnig ar y pwnc a gafwyd yn y wasg yn ystod y rhan fwyaf o'r ganrif. Gwnaethpwyd defnydd helaeth o gynnwys llythyrau personol gan gefnogwyr a gwrthwynebwyr yr ymgyrchoedd i ddarbwylllo'r Cymry i ymsefydlu yn y Rio Grande da Sul ym Mrasil yn y 1850au cynnar ac ym Mhatagonia, er enghraifft.

Ceir yn *Llythyrau Cymro yn Mecsico* un ar ddeg o lythyrau Wiliams a ysgrifennwyd dros gyfnod o bedair mis ar ddeg, rhwng y 24 Ebrill 1825 a 30 Mehefin 1826. Ysgrifennwyd pob un ohonynt yn Guanajuato heblaw am y cyntaf, a luniwyd ar y *Rosalind* toc cyn iddi gyrraedd Monserrat, a'r ail, a ysgrifennwyd gerllaw Vera Cruz cyn glanio ym Mecsico. Anfonwyd chwech o'r un ar ddeg at Joseph Maybery, cyfaill mynwesol i Wiliams ac fel yntau, un o gychwynwyr a hoelion wyth eglwys Seilo, Glandŵr.<sup>24</sup> Anfonwyd y pump arall at un o frodyr Dafydd Wiliams, Robert. Sylwer nad yw'r gyfrol yn cynnwys llythyrau at Gwen, ei wraig, pwynt y dychwelwn ato, maes o law. Yn wir, anghyflawn a phen-agored iawn yw ein gwybodaeth am gefndir y gyfrol a llythyrau Wiliams, sefyllfa gyfarwydd iawn i'r sawl sy'n astudio llythyrau ymfudwyr. Fel y gwelwn yn fanylach nes ymlaen, ni wyddys ai'r llythyrau yn y gyfrol yw'r unig rhai a ysgrifennodd Wiliams – anodd credo iddo ymatal â llythyru yn ystod ei dair blynedd yn weddill yn Guanajuato wedi Mehefin 1826. Nid yw fersiynau gwreiddiol y llythyrau a gyhoeddwyd wedi goroesi, felly ni allwn gymharu'r ddau.

Dychwelaf at y pynciau trafod hyn yn nes ymlaen. Ond yn gyntaf hoffwn grybwyll ambell i bwynt ynglŷn â'r dystiolaeth am brofiad Wiliams o lythyru a geri yn ei lythyrau a'r hyn y gellir ei ddarllen ynddynt am ei feddyliau a theimladau. Fel y mae astudiaethau gan ysgolheigion wedi dangos, minnau yn eu plith, er eu pwysigrwydd fel dolennau cyswllt rhwng ymfudwyr a theuluoedd a chyfeillion a arhosodd yn y famwlad, dolennau bregus yn aml oedd llythyrau. Yn gyntaf, roeddent yn dibynnu ar lythrennedd i raddau helaeth, ac er roedd darllen llythyrau ymfudwyr yn gyhoeddus yn gyffredin yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd rhaid i dderbynwyr anllythrennog ddibynnu ar eraill i ohebu drostynt. Efallai cawn adlewyrchiad o'r agwedd hon yng nghyswllt safle Gwen, gwraig Wiliams, yn ei ohebiaeth. Er nad yw'r gyfrol yn cynnwys llythyrau ati'n uniongyrchol, nid yw heb bresenoldeb ar y tudalennau. Brithir llythyrau Wiliams gan ei gyfeiriadau ati hi a'r plant, a'i ofynion taer i'r derbynwyr iddynt anfon ei gariad ati a chyfleu ei negeseuon iddi,

---

<sup>24</sup> Roedd Maybery tua 5 mlynedd yn iau na'i gyfaill. Roedd yn godwr canu, yn ysgrifennydd ac yn gyhoeddwr yn Seilo ac ef hefyd oedd diacon cyntaf yr eglwys. Symudodd o Landwr o Lanelli, lle bu farw yn 1871, yn 73 oed. Williams, *Hanes Seilo Glandwr*, t.17; Williams, 'A Welshman in Mexico', t.13; LLGC D. R. Phillips MS, 419, Cymro Mecsico.

rhai ohonynt yn bersonol iawn ac o waelod calon. Er enghraifft, ysgrifennodd Wiliams o Vera Cruz, 15 Mai 1825: ‘Dymynaf ar Gwen i fod yn galonog o’r herwydd, oblegid yr wyf yn ystyried y tro hyn y gorau a wneuthum erioed er ei lles hi a’r plant; beth bynag a ddywed eraill, hyn yw fy marn i.’<sup>25</sup> Gyda llaw, mae’r geiriau hyn ac eraill tebyg iddynt yn cadarnhau mai ymfudiad dros dro oedd un Wiliams, i gymryd mantais o’r cyflogau uwch y gallai ei sgiliau hawlio yng Nghanolbarth America. Ond yn ôl at Gwen: ysgrifennodd Wiliams o Guanajuato, 10 Gorffennaf 1825: ‘Dymynaf ar Gwen i beidio tristau o’r herwydd, ond sefyll yn ganolog yn erbyn y croes-awelon a ddichon ei chyfarfod, gan ystyried yn bresennol mai hi yw’r penteulu.’<sup>26</sup> Wrth gwrs mae’n bosibl roedd Wiliams a Gwen yn gohebu’n uniongyrchol â’i gilydd mewn llythyrau na chawsant eu cynnyws yn y llyfr, ond ni cheir unrhyw gyfeiriad at hynny yn y llythyrau cyhoeddiedig. Dengys llythyr Wiliams dyddiedig 30 Mehefin 1826 ei fod wedi derbyn llythyr gan un o’i blant, Tomos, sy’n tueddu i gefnogi’r syniad yr oedd Wiliams yn derbyn llythyrau ar wahan i’r rhai a chyhoeddwyd. Gyda llaw eto, mae ymateb Wiliams i lythyr Tomos yn esgor ar sylw diddorol o safbwynt meddylfryd rhywun ymhell o gartref: ‘hyn sydd yn hynod pan fyddo un o gartref, ei fod yn dychmygu yn ei feddwl yn gyffredin, leoedd, perthynasau, a chyfeillion, eu bod yr un modd a dull ag yn yr amser yr ymadawodd; felly finau, -- ar dderbyniad y llythyr hwnw, nid oeddwn yn meddwl amgen nad darllen yr oedd Tomos bach’.<sup>27</sup>

Un o nodweddion amlycaf llythyrau ymfudwyr, p’un bynnag oedd iaith a chenedl y llythyrwr, yw’r cyfeiriadau a geir at lythyrau a aeth ar goll, at bryd y derbyniwyd llythyrau ac at faint o amser a âi heibio cyn iddynt gyrraedd eu derbynwyr. Nodweddiadol hefyd o’r math hyn o lenyddiaeth yw plediadau i’r derbynwyr i ateb yn gyflym, a chwynion nad oedd teulu neu gyfeillion yn ateb llythyrau’n ddigon cyflym, os o gwbl.<sup>28</sup> Diddorol gweld bod rhai o’r elfennau hyn yn llythyrau Dafydd Wiliams. Ymddengys na dderbyniodd lythyr o Gymru tan 27 Rhagfyr 1825, chwe mis wedi iddo gyrraedd Guanajuato, er iddo sgrifennu sawl un yn ystod y cyfnod hwnnw. ‘Yr wyf yn ofni’, ysgrifennodd ar 9 Ionawr 1826, ‘bod llawer o fy lythyrau inau yn myned ar goll. Cofiwch gyfeirio ataf fel y ganlyn’, ac ychwanegodd ei gyfeiriad.<sup>29</sup> Yn ôl tystiolaeth sydd i’w gael yn y llythyrau, ni dderbyniodd Wiliams lythyrau gan ei frawd Robert o gwbl yn 1825 - 1826. Nid syndod felly, efallai, yw i Wiliams cyfeirio at y diffyg hwn mewn llythyr at Robert yn Hydref 1825, mewn geiriau sydd yn awgrymu nad

<sup>25</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Wiliams at Maybery, gerllaw Vera Cruz, 15 Mai 1825, t.8.

<sup>26</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Wiliams at Maybery, Guanajuato, 10 Gorffennaf 1825, t.13.

<sup>27</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Wiliams at Maybery, Guanajuato, 10 Gorffennaf 1825, t.91.

<sup>28</sup> Jones, ‘Writing Back’, tt.40-5.

<sup>29</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Wiliams at Maybery, Guanajuato, 9 Ionawr 1826, tt.65-6.

ef yn unig ymhlith y Cymry yn Guanajuato a gâi brofiad o'r math: 'Byddai yn foddlonrwydd i mi a fy nghydwladwyr, pe gallem ddechreu ein llythyrau yr un modd a'r mwynwyr a ddaeth yn yr un llong a ni, trwy ddechreu, - "Derbyniais eich" &c ond cymwysach i mi ddechreu fel y canlyn: Atat fy mrawd yr wyf yn anfon y llythyr hwn, mewn gobaith dy fod di a'th deulu, yn nghyd a'r eiddo finau, ein perthynasau, hen gymydogion a chyfeillion, yn iach a chysurus, fel y mae yn fy ngadael i. Ni dderbyniais un llythyr caredig oddiwrthyt hyd yma, ym mha un yr wyf yn dysgwyl cael hanes yr Eglwys, yr Ysgolion, y Gweithfeydd, y Gymydogiaeth, &c.'<sup>30</sup> Mae'n amhosib i ni wybod ai dweud ei ddweud yn blwm ac yn blaen oedd Williams, neu'n hytrach yn tynnu coes ei frawd mewn modd ysgafn, direidus.

Gan droi at yr hyn mai llythyrau Williams yn ei ddadlennu am ei deimladau, nid yw'n syndod efallai iddo ddatgan ei hiraeth ar sawl achlysur. Dyma rai engreifftiau: 23 Mawrth 1826 o Guanajuato at ei frawd Robert: 'Yr ydym yn cael llawer o hyfrydwch yma droion wrth ganu yr hen dônau Cymreig – hyfryd yw eu swm; y maent yn creu llawer o hiraeth ynof weithiau, a braidd nad wyf yn anghofio fy hun ar brydiau, a meddwl fy mod gartref yn yr addoliad neu yn yr ysgol; ond Och! Nid felly y mae.-- Gan obeithio y caf y fraint o ddychwelyd, a'ch gweled eto'.<sup>31</sup> Ac eto at Joseph Maybery 20 Mai 1826: 'Cyfarfu cymaint o honom ag sydd yn y gymydogiaeth, ac a ddaeth allan yn y llong *Rosalind*, yn nghyd i giniaw ar ddydd Gwyl Dewi, er llawenydd fod blwyddyn wedi myned heibio o ein hamser cytunol'.<sup>32</sup> Ymddengys mai hiraeth Williams oedd un o'i resymau pennaf dros ymadael â Guanajuato yn 1829. Datgana ar ddechrau ei ail gyfrol, *Dychweliad*: 'Cefais gynnyg ar aros blwyddyn arall, ond yr oedd fy hiraeth am ddychwelyd yn drech na'r cwbl'.<sup>33</sup> Yr ansicrwydd gwleidyddol ac aflonyddwch gwladol (roedd rhai carfannau yn y wlad yn ceisio alltudio tramorwyr) a dirywiad yn rhagolygon economaidd y lle oedd y rhesymau eraill. Ond er ei bwyslais ar hiraeth, ceir tystiolaeth bod Williams hefyd wedi dod i hoffi Guanajuato, ac yn teimlo ei fod yn perthyn yno i ryw raddau. Ynghyd â'r dyfyniad blaenorol, ceir ar ddechrau *Dychweliad* datganiad sy'n adlewyrchu'r hyn y gellir ei alw'n hiraeth dwbl; hiraeth cryf iawn am Gymru ond hiraeth bach yn ogystal am ymadael â'r lle a fu ei gartref yn ystod y pedair blynedd flaenorol. Dyma brofiad sydd yn nodweddiadol iawn o ffawd nifer fawr o ymfudwyr, wrth gwrs, sef methu â theimlo eu bod 'adref' ac yn hytrach teimlo nad oeddent yn perthyn yn llwyr i unman wedi'r broses o afleoli. Tybed a theimlodd Williams yn llwyr

---

<sup>30</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Williams at R. Williams, Guanajuato, 18 Hydref 1825, t.56.

<sup>31</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Williams at R. Williams, Guanajuato, 23 Mawrth 1826, t.83.

<sup>32</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Williams at Maybery, Guanajuato, 20 Mai 1826, t.84.

<sup>33</sup> *Dychweliad D. Williams Y Cymro o Mexico*, t.97.



gartrefol unwaith iddo ail-yngartrefu yng Nglandŵr? Mae'n bwynt diddorol, oherwydd er yr holl gariad at y lle a fynegir yn ei llythyrau, dadwreiddiodd unwaith eto, i'r UDA, ymhen pedair blynedd yn unig. Mae'n nodweddiadol iawn o'r holl ffenomen o ymfudo fod unigolion a theuluoedd a oedd wedi mudo unwaith yn fwy tebygol o wneud hynny eto, ac efallai bod hyn yn wir yn achos Williams.

Yn olaf hoffwn archwilio'n fanylach y prosesau a allai fod ar waith i arwain at gyhoeddi llythyrau preifat Williams ac felly'n eu rhoi o flaen gynulleidfa gyhoeddus. Mae'n amhosib ateb yn bendant y cwestiwn sylfaenol pam yr ymddangosodd y gyfrol *Llythyrau Cymro yn Mexico* ond mae rhai cliwiau ar gael. Datgenir yn y Rhagymadrodd ac mewn ffynonellau eraill y talwyd costau'r cyhoeddi gan Joseph Maybery ac iddo drefnu i unrhyw elw fynd at drysorfa ysgol Sul Capel Seilo, Glandŵr.<sup>34</sup> Nid yw'r olaf yn syndod gan gofio y bu Dafydd Williams a Maybery yn flaenllaw iawn yn ffurfio'r eglwys honno. Roedd hi a'r ysgol Sul yn agos iawn at galon Williams, ac mewn sawl un o'i llythyrau ceir ef yn gofyn i Maybery a Robert Williams gyfleu ei ddymuniadau gorau iddynt.<sup>35</sup> Rhaid bod yn ofalus yma oherwydd prinder tystiolaeth ac amwyster y cyfeiriadau sydd wedi goroesi. Ni cheir yn y llythyrau unrhyw gyfeiriadau at gyhoeddi. Mae'n bosibl yr aeth Maybery ati ar gyfrifoldeb ei hun i lunio'r cyhoeddiad, gan dybio y byddai Williams yn cytuno â'r fenter ac yn sicr yn cymeradwyo'n fawr y pwrpas o gefnogi capel Seilo. Yn bosibl, efallai, ond annhebyg. Mwy na thebyg trafodwyd y mater gan Williams a Maybery cyn iddo ymadael â Chymru neu fewn llythyrau a gadawyd allan o'r gyfrol ac sydd heb oroesi.

Pwy bynnag a gafodd y syniad o gyhoeddi'r llythyrau yn y lle cyntaf, ymddengys yr oedd gan Maybery rhesymau eraill am baratoi'r gyfrol. Gallwn ddyfalu iddo ef a Williams gredu y byddai'r gyfrol o fudd ariannol i gapel Seilo oherwydd roedd farchnad ar gyfer y math hwn o gyhoeddiad eisoes wedi datblygu. Datganwyd yn y Rhagymadrodd i *Llythyrau Cymro yn Mexico* mai 'dyben cyhoeddiad y llythyrau canlynol yw llesâd y Cymry yn gyffredin. Gan nad oes ond ychydig o'r cyffelyb wedi ymddangos yn y Gymraeg erioed, barnwyd mai buddiol fyddai eu hargraffu, modd y gallo y Cymry gael, yn eu hiaith eu hunain, hanes taith un o'i cydwladwyr mewn bro ddyeithr a phellenig iawn'.<sup>36</sup> Gellir dadlau y cafodd gyhoeddi llythyrau Williams ei ddylanwadu gan ystyriaethau mwy cyffredinol,

---

<sup>34</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Rhagymadrodd [t.2]; Williams, *Hanes Seilo Glandwr*, t.16.

<sup>35</sup> Er enghraifft, *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Williams at Maybery, Guanajuato, 1 Medi 1825, t.38.

<sup>36</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Rhagymadrodd [t.2]. Ceir datganiad tebyg yn y rhagarweiniad i'r fersiwn Saesneg: 'The work will be found highly interesting to those who have friends in Mexico, and who have not the means or the time to consult the more extensive works of authors and travellers, who have written on that country.' *A Series of Letters from Mexico*, Advertisement.

ymhlith y pwysicaf ohonynt yr ymdrech i ehangu ystod a chyrrhaeddiad y deunydd Cymraeg a oedd ar gael i gynulleidfa a oedd yn gynyddol lythrennog a thorfol. Mae *Llythyrau Cymro yn Mexico* yn adlewyrchu'r twf nodedig a gafwyd ym myd cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys cyhoeddi llyfrau a dwsinau o gyfnodolion a phapurau newydd. Cyhoeddiid ynddynt newyddion a sylwebaeth ar faterion cenedlaethol a rhyngwladol cyfoes, ar wleidyddiaeth, ar lenyddiaeth, ar athroniaeth, ac, wrth gwrs, ar ymfudo. Ac yn fwyfwy cyhoeddwyd llythyrau ymfudwyr ynddynt hefyd, fel y gwelwyd eisoes. Byddwn yn dadlau fod cyhoeddiadau fel *Llythyrau Cymro yn Mexico* yn adlewyrchu ac yn bwydo datblygiadau pwysig rhyngberthnasol. Yn gyntaf, twf y sffer gyhoeddus yng Nghymru. Yn ail, y diddordeb cynyddol yn y byd ehangach a phresenoldeb y Cymry fel cenedl y tu hwnt i ffiniau'r famwlad. Hynny yw, y syniad o ryng-genedligrwydd [transnationality], nid yn unig ymhlith ymfudwyr a darpar-ymfudwyr ond hefyd ar ran perthnasau a chyfeillion ymfudwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.<sup>37</sup>

Cyfyd cwestiwn pwysig arall ynglŷn â llythyrau ymfudwyr a gafodd eu cyhoeddi boed mewn papurau newydd neu o fewn llyfrau, fel y gyfrol dan sylw. I ba raddau ac ym mha ffyrdd, os o gwbl, gafodd llythyrau llawysgrif gwreiddiol Dafydd Williams eu golygu a'u haddasu gan Maybery neu rywun arall ar gyfer eu cyhoeddi; faint dorrwyd allan, a faint newidiwyd yr arddull ac ati? Fel y gwelsom, nid oes gennym lythyrau gwreiddiol Williams, gwaetha'r modd. Ond er nad oes modd darganfod ai'r geiriau yr ydym yn darllen ar dudalennau'r gyfrol yw'r union rhai a ysgrifennodd Williams, rhaid cadw'r posibiliad mewn cof os ydym am iawn ddeall natur a chymlethdod *Llythyrau Cymro yn Mecsico*. Ar y pryd, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd barn gyhoeddus gryf yn amheus neu hyd yn oed drwgdybus ynglŷn â deunydd a oedd ar gael mewn print, yn enwedig yng ngholofnau'r papurau newydd. Nid oedd yn anghyffredin i gyhoeddiadau gynnwys datganiadau gan awduron, golygyddion a chyhoeddwyr yn pledio cywirdeb a ffyddlonrwydd i eirwiredd eu hysgrifau.<sup>38</sup>

Diddorol iawn felly yw gweld bod yr elfennau hyn yn bresennol yn achos *Llythyrau Cymro yn Mexico*. Cynhwysa un o'r argraffiadau 'tystiolaeth gan un o gyd-deithwyr D. Williams' sef W. Morris, Penbre, yn canmol y gyfrol ac yn datgan: '[c]efais ei fod yn eithaf

---

<sup>37</sup> Gw. y trafodaethau a'r cyfeiriadau yn Jones, ' "Going into Print" '; Bill Jones, 'Representations of Australia in mid-nineteenth century Welsh emigrant literature: *Gwlad yr Aur* and *Awstralia a'r Cloddfeydd Aur*', *Welsh History Review*, 23.2 (Rhagfyr 2006), tt.51-74.

<sup>38</sup> Ibid..

cywir yn ei hanes; a phwy bynag a amheo hyny, wele fi yn barod idd ei ymddiffynu'.<sup>39</sup> Ceir datganiad o'r un math yn y rhagarweiniad i'r fersiwn Saesneg: '*The statements [in Wiliams's letters] will be found to receive confirmation from the works of the Baron Humboldt, Bullock's "Six Months Residence in Mexico," and other travellers, American, Spanish and English, who have lately visited the above interesting portion of the globe.*'<sup>40</sup> Roedd Wiliams ei hun yn ymwybodol o'r mater. Gwelir hyn mewn darn lle y trafoda'n ofalus a ddylai gweithwyr o Gymru ddod allan i Guanajuato: 'Dywedodd Mr Ward wrthyf y buasai yn anfon am ddau *Founder*, dau *Forgeman*, a Gôf; crybwyllais wrtho am rai o fy hen gyfeillion, ond fy mod yn meddwl na ddeuent heb arian gwych; hwy welant pa fath le yw wrth fy llythyrau, ni ddymynwn er dim anog neb i ddyfod heb hysbysu'r gwir, rhag iddynt fod yn anedwydd gwedi dyfod'.<sup>41</sup>

Gellid dweud llawer mwy am *Llythyrau Cymro yn Mecsico* ond i gloi'n gyflym. Mae'n destun cymhleth, amwys mewn rhai agweddau, ond un hynod ddiddorol *oherwydd* hynny nid serch hynny. Os ydym am iawn ddeall y gyfrol hon a'r llythyrau sydd ynddi, rhaid ystyried nifer o ffactorau mewnol yn y testun a'r cyd-destun allanol, fel sy'n wir o bob testun. Mae'n taflu goleuni difyr ar deimladau un ymfudwr o Gymro mewn amgylchiadau a oedd mor wahanol i'w filltir sgwar yn y famwlad, a'r broses o geisio cadw mewn cysylltiad â'r hen wlad trwy lythyru. Credaf hefyd fod cyfrol Dafydd Wiliams – a gyhoeddwyd pedair blynedd cyn *Newyddion Da* gan John Davies (Brychan) – yn fan cychwyn diddorol iawn ar gyfer mynd i'r afael â'r cwestiynau difyr sydd yn codi o'r weithred o drosglwyddo llythyrau personol o'r sffer preifat i'r sffer cyhoeddus a fodolai ar yr adeg honno. Awgrymaf fod y llyfr yn dyst i'r rhan gynyddol bwysig yr oedd diwylliant printiedig yn dechrau chwarae yng Nghymru, ac yn arbennig yn y broses o lunio'r teimlad o 'draws-genedligrwydd' [*transnationality*] Cymreig a oedd yn datblygu'n sylweddol yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

---

<sup>39</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, 'At Y Cymry'

<sup>40</sup> *A Series of Letters from Mexico*, Advertisement.

<sup>41</sup> *Llythyrau Cymro yn Mexico*, Wiliams at R. Wiliams, Guanajuato, 7 Awst 1825, t.21.